# Rhaglen Natura 2000 LIFE

# Cwestiynau Cyffredin


Beth yw Natura 2000? .......... 2

Pam y mae Natura 2000 yn bwysig? .......... 2

Beth yw Rhaglen Natura 2000 LIFE? .......... 2

Beth yw pwrpas y prosiect? .......... 2

Beth fydd yn deillio o'r prosiect? .......... 3

Beth fydd y manteision? .......... 3

Ai safleoedd Natura 2000 ar y tir yn unig sy'n berthnasol i'r Rhaglen? .......... 4

Mae Cynlluniau Rheoli ar waith eisoes ar gyfer pob safle Natura 2000. Onid ydych yn ailddyfeisio'r olwyn trwy lunio Cynlluniau Gweithredu? .......... 6

A all y Cynlluniau Gweithredu gynnwys camau gweithredu y tu allan i ffiniau'r safleoedd? .......... 6

Pam y byddwch yn creu cronfa ddata newydd, a'r Gronfa Ddata Gweithredoedd yn bodoli eisoes? .......... 6

Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y Rhaglen Safleoedd Arbennig a Rhaglen Natura 2000 LIFE? .......... 7

Sut y bydd sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru yn effeithio ar y prosiect? .......... 7

Pam y mae Cymru yn gwario cymaint o arian ar safleoedd bywyd gwyllt o gofio bod yr hinsawdd economaidd bresennol yn golygu bod yna nifer o flaenoriaethau pwysicach? .......... 7

A fydd partneriaid a rhanddeiliaid yn gallu hawlio rhywfaint o gyllid LIFE i wneud yn iawn am yr amser a gyfrannant tuag at y prosiect a/neu eu treuliau? .......... 8

A fydd angen i bartneriaid a rhanddeiliaid gofnodi eu hamser fel y gellir ei ystyried fel arian cyfatebol? .......... 8

**Beth yw Natura 2000?**

Safleoedd dan warchodaeth Ewropeaidd yw safleoedd Natura 2000, sydd wedi'u dynodi dan y Gyfarwyddeb Adar a'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd – sef Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA). Eu pwrpas yw rhoi lefel uchel o warchodaeth i 69 o rywogaethau a 55 o gynefinoedd sydd dan fygythiad rhyngwladol.

**Pam y mae Natura 2000 yn bwysig?**

Rhwydwaith Natura 2000 yw conglfaen cadwraeth natur yn Ewrop. Mae cynefinoedd dan warchodaeth yn cynnwys coetiroedd derw hynafol, rhostiroedd yr ucheldir, twyni tywod, afonydd a llynnoedd, aberoedd, cynefinoedd arfordirol a'r môr agored. Caiff rhywogaethau enwog fel dyfrgwn, dolffiniaid trwyn potel a morloi llwyd eu gwarchod ochr yn ochr â phlanhigion mwy di-nod fel llysiau'r afu petalog a rhywogaethau llai amlwg fel malwod troellog. Cynhwysir amrywiaeth eang o adar, rhai sy'n byw yn y wlad hon a rhai ymfudol, er enghraifft brain coesgoch, bodaod tinwyn, gylfinirod a chudyllod bach.

Caiff y rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn eu gwarchod; ac os caiff y safleoedd eu rheoli'n briodol, bydd yr ecosystem y maent yn rhan ohoni yn iach a chydnerth, gan sicrhau y bydd y bywyd gwyllt arall sy'n ddibynnol ar yr ecosystem hefyd yn cael ei warchod.

Ymhellach, mae safleoedd Natura 2000 yn esgor ar lu o fanteision i drigolion Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid gwarchodfeydd natur mohonynt, ond yn hytrach dirweddau byw gyda ffermydd, mentrau coedwigaeth neu bysgodfeydd sy'n cyfrannu at economi Cymru. Maent yn arddangos natur ar ei gorau a chânt eu gwerthfawrogi gan filiynau o ymwelwyr bob blwyddyn, gan gynnal y diwydiant twristiaeth a chan rhoi cyfle i bobl fwynhau, ymlacio a gwneud ymarfer corff yn yr awyr agored. Dyma weithgareddau sy'n rhoi hwb i'n hiechyd a'n lles. Hefyd, maent yn cynnig gwasanaethau 'cynnal bywyd' hanfodol i bob un ohonom, er enghraifft puro ein dŵr yfed a storio carbon.

**Beth yw Rhaglen Natura 2000 LIFE?**

Dyma brosiect 28 mis a ariannir ar y cyd gan gynllun grant LIFE yr UE a'i roi ar waith gan Gyfoeth Naturiol cymru. Y nod yw datblygu rhaglen, neu flaengynllun, ar gyfer rheoli ac adfer safleoedd Natura 2000 yng Nghymru.

**Beth yw pwrpas y prosiect?**

Y nod yw gwneud cynnydd sylweddol tuag at ddod â'r holl gynefinoedd a'r holl rywogaethau dynodedig ar safleoedd Natura 2000 yng Nghymru i gyflwr ffafriol, a hynny er mwyn sicrhau bod modd eu diogelu ar gyfer y dyfodol. Byddwn yn gwneud hyn trwy geisio darganfod sut fath o bwysau sy'n effeithio ar les cynefinoedd a rhywogaethau dynodedig a phennu'r holl gamau y mae angen eu cymryd i ymdrin â nhw. Bydd hyn yn cynnwys blaenoriaethu camau gweithredu a phennu eu costau, yn ogystal â gweld pa arian sydd ar gael. Bydd yr

wybodaeth hon yn cael ei dwyn ynghyd i lunio rhaglen strategol ar gyfer Cymru – rhaglen a gaiff ei rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd.

**Beth fydd yn deillio o'r prosiect?**

Bydd y prosiect yn esgor ar gynlluniau gweithredu ar gyfer yr holl safleoedd Natura 2000 sydd i'w cael yng Nghymru (a rhai ychwanegol ar gyfer grwpiau o safleoedd neu themâu). Hefyd, bydd yn arwain at raglen strategol gytûn ar gyfer y wlad. Ymhellach, byddwn yn dwyn ynghyd drysorfa dystiolaeth o ddata ar gyfer cyfarwyddo'r gwaith, yn ymwneud yn arbennig â phroblemau a risgiau sy'n berthnasol i gynefinoedd a rhywogaethau Natura a gwerth y dulliau rheoli newydd a phresennol. Bydd astudiaeth fawr yn ystyried y ffynonellau cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd, yn ogystal â rhai newydd. Ymhellach, bydd cronfa ddata'n cael ei datblygu (y Gronfa Ddata Gweithredoedd Safleoedd Arbennig yn ôl pob tebyg), er mwyn storio gwybodaeth a hwyluso defnyddwyr mewnol ac allanol i gael gafael ar yr wybodaeth.

**Beth fydd y manteision?**

Y brif fantais yw hyn: am y tro cyntaf bydd y rhaglen yn datblygu dull strategol o reoli safleoedd a nodweddion Natura 2000 yng Nghymru. Bydd yn ystyried yr holl rwydwaith gyda'i gilydd – yn y môr, ar y tir, ar yr ucheldiroedd ac ar yr iseldiroedd – gan nodi'r materion, yr anghenion, y costau a'r blaenoriaethau cyffredinol. Mi fydd hyn yn caniatáu i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ddyrannu cyllid, amser ac adnoddau eraill mewn modd cydlynol a phenodol yn hytrach nag yn fympwyol.

Yn bwysig, bydd y rhaglen yn cael ei datblygu trwy gael amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n ymhél â rheoli safleoedd Natura 2000 i gyfrannu ati. Bydd hyn yn ein galluogi i rannu arbenigedd a chytuno ar atebion gyda'n gilydd, yn ogystal â sicrhau y bydd cefnogaeth ar gael i'r rhaglen derfynol ac y bydd mewn cyflwr i gael ei rhoi ar waith cyn gynted ag y bo modd.

Bydd y rhaglen yn cyfrif y gost o achub ein hasedau bywyd gwyllt allweddol (ar lefel leol a chenedlaethol), gan ein galluogi i gynllunio'n fwy effeithiol. Ymhellach, bydd yn cael ei defnyddio i gael gafael ar filiynau o bunnoedd o gynlluniau grant sydd i'w cael eisoes, o gynlluniau grant newydd ac o ffynonellau cyllid eraill, gan helpu i sicrhau bod anghenion safleoedd Natura 2000 yn cael eu cydnabod a'u cefnogi gan gyllid sydd, yn y gorffennol, heb gael ei ddefnyddio i warchod bywyd gwyllt. Mae gan hyn oll y potensial i hybu'r economi leol, yn ogystal â'r amgylchedd, trwy ddod ag arian newydd i Gymru.

Er mwyn cyflawni hyn bydd yn rhaid inni gyflwyno tystiolaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau (yn cynnwys deiliaid grantiau) ynglŷn â gwerth safleoedd Natura 2000 – nid yn unig o ran bywyd gwyllt, ond hefyd o ran yr hyn y gallant ei roi i drigolion Cymru. Gall hyn

gynnwys gwasanaethau fel storio carbon, dŵr glanach, lleihau perygl llifogydd, amddiffynfeydd môr naturiol, swyddi gwyrdd, cyfleoedd i fentrau lleol, atyniadau gwell i dwristiaid a physgodfeydd mwy cynhyrchiol.

**Ai safleoedd Natura 2000 ar y tir yn unig sy'n berthnasol i'r Rhaglen?**

Na. Mae'r Rhaglen yn ymdrin â safleoedd Natura 2000 o bob math: ar y tir, mewn dŵr croyw ac yn y môr.

**Faint o staff sy'n rhan o'r prosiect?**

Mae'r tîm yn cynnwys saith aelod o staff – dyma staff sy'n gweithio'n unswydd ar Raglen Natura 2000 LIFE. Fodd bynnag, bydd nifer o bobl eraill sy'n ymhél â gwarchod a rheoli safleoedd Natura 2000 yn cyfrannu wrth i'r rhaglen fynd rhagddi.

**A fydd y Cyngor Cefn Gwlad yn deddfu sut y dylid rheoli'r safleoedd?**

Nod y prosiect yw dod â rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd i geisio gweld ble y mae angen rhoi dulliau rheoli ar waith, gan ddod o hyd i atebion sy'n plesio pawb ar gyfer dod â rhywogaethau a chynefinoedd dynodedig i gyflwr ffafriol. Bydd hyn yn cynnwys rhai sy'n cynrychioli perchnogion a rheolwyr safleoedd, y meysydd ffermio a physgodfeydd, defnyddwyr hamdden, cadwraethwyr, rheolyddion, rhai sy'n llunio polisïau ac eraill yn y sector cyhoeddus. Mae ymgysylltu â phartneriaid yn hollbwysig er mwyn rhoi cyfle iddynt gyfrannu at y broses a chytuno arni, a bod yn fodlon helpu i gyflawni cynlluniau ar lawr gwlad yn y dyfodol agos.

**A fydd ardaloedd newydd dan warchodaeth yn cael eu dynodi fel rhan o'r prosiect ac a fydd cyfyngiadau pellach yn cael eu rhoi ar dirfeddianwyr a defnyddwyr?**

Rheoli safleoedd sydd i'w cael eisoes yw pwrpas y prosiect yn hytrach na dynodi safleoedd newydd. Mae gan y DU gyfrifoldeb cyfreithiol eisoes i sicrhau bod safleoedd Natura 2000 yn cael eu rheoli mewn modd ffafriol, a bydd y prosiect hwn yn gwneud cynnydd o ran cyflawni hyn. Bydd ambell ran o'r gwaith yn ystyried ffyrdd newydd a chreadigol o reoli'r safleoedd er mwyn bodloni anghenion y defnyddwyr yn ogystal â'r bywyd gwyllt.

**A fydd y prosiect yn golygu rhoi camau ymarferol ar waith ar lawr gwlad? Siawns mai dyma'r flaenoriaeth ar hyn o bryd.**

Ni fydd y prosiect hwn ynddo'i hun yn mynd i'r afael â gwaith ymarferol ar lawr gwlad. Fodd bynnag, bydd yn ceisio darganfod pa waith sydd angen ei wneud ar safleoedd Natura 2000 ac yn ei gwneud yn bosibl i weithgareddau ymarferol gael eu cynnal – o dasgau rheoli syml i

brosiectau mawr yn ymwneud â sawl safle. Dylai'r rhain ddechrau erbyn 2014, neu ynghynt hyd yn oed. Bydd staff y prosiect yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno ar y trefniadau, i'w cynllunio ac i baratoi ar eu cyfer. Caiff y camau eu blaenoriaethu er mwyn inni allu canolbwyntio ar y mannau sydd eu hangen fwyaf, a hefyd bydd amser yn cael ei fuddsoddi yn y dasg o chwilio am ffynonellau cyllid er mwyn sicrhau y bydd modd gwireddu'r cynlluniau.

**Pam y cyflwynodd Cyfoeth Naturiol Cymru gais am gyllid Ewropeaidd ar gyfer y prosiect ar hyn o bryd?**

Roedd y Comisiwn Ewropeaidd yn awyddus i aelod-wladwriaethau wneud cais am gyllid LIFE ar gyfer llunio rhaglenni Natura 2000 er mwyn dangos blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer safleoedd Natura 2000 a helpu'r broses o gydblethu'r anghenion hyn gyda dyraniad cyllid yr UE. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau grant mawr fel Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig neu Gronfa Pysgodfeydd Ewrop. Mae gan y rhain gyllidebau mawr, ond yn y gorffennol pur anaml y maent wedi'u defnyddio ar gyfer gwarchod natur.

Ymhellach, methodd Cymru â chyrraedd y targedau a osododd Llywodraeth Cymru ar ei chyfer, sef sicrhau bod 90% o'i safleoedd rhyngwladol mewn cyflwr ffafriol erbyn 2010. Dengys hyn fod angen rhoi dull newydd ar waith a bod angen ymdrechu o'r newydd i reoli ac adfer safleoedd Natura 2000.

**A yw Rhaglen Natura 2000 LIFE a'r Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethau yr un peth â'i gilydd?**

Menter ar wahân yw Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethau Cymru, ond ceir cysylltiadau cryf rhwng y ddau. Bydd Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethau Cymru yn rhan o ddogfen sy'n ymwneud â'r DU – dogfen a gyflwynir i'r UE i dynnu sylw at faterion pwysig yn ymwneud â Natura 2000 ac a fydd yn helpu i bennu blaenoriaethau ar gyfer y prif ffrydiau ariannu.

Arolwg eithaf byr fydd y Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethau cyntaf. Bydd canlyniadau Rhaglen Natura 2000 LIFE yn cael eu defnyddio i gyfarwyddo gwahanol fersiynau o'r Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethau yn y dyfodol, gan roi cig am yr asgwrn fel petai. Bydd y rhaglen yn cyflwyno mwy o fanylion, trysorfa dystiolaeth a chonsensws y rhanddeiliaid. Bydd canlyniadau'r rhaglen yn cael eu cydweddu'n llwyr â gofynion y Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethau.

**A fydd tirfeddianwyr, ffermwyr a physgotwyr unigol yn gallu cymryd rhan?**

Gan ein bod yn gweithio ar lefel Cymru gyfan, efallai na fydd modd ymgynghori â phob tirfeddiannwr, deiliad a defnyddiwr cyn i'r cynlluniau gael eu gwneud. Fodd bynnag, yn

ystod pob cam byddwn mewn cysylltiad agos â sefydliadau cynrychiadol, fel undebau ffermwyr, cymdeithasau a phartneriaethau rhanbarthol. Fel cynigion yn unig y dylid ystyried y gweithgareddau a gynhwysir yn y cynlluniau gweithredu neu'r rhaglen – dim ond ar ôl cynnal ymgynghoriad llawn gyda'r perchnogion, y deiliaid a'r defnyddwyr perthnasol yn lleol y byddant yn cael eu rhoi ar waith.

**Mae llawer o wybodaeth eisoes wedi'i chynhyrchu ynglŷn â rheoli safleoedd Natura 2000. Pam y mae hyn oll yn cael ei ailadrodd?**

Rôl y prosiect fydd coladu'r data, yr wybodaeth a'r ymchwil sydd i'w cael eisoes yn hytrach na'u creu (neu eu hail-greu) o'r newydd. Mewn sawl achos, mae'r wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd wedi'i chynhyrchu gan wahanol sefydliadau, a hynny ar gyfer dibenion penodol ac yn aml ar gyfer un sector, er enghraifft ar gyfer nodweddion y môr yn unig. Felly, nod y prosiect yw pennu ffynonellau, coladu a chyfuno deunyddiau o'r fath er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr o bob safle a nodwedd ar draws Cymru.

**Mae Cynlluniau Rheoli ar waith eisoes ar gyfer pob safle Natura 2000. Onid ydych yn ailddyfeisio'r olwyn trwy lunio Cynlluniau Gweithredu?**

Mae cynlluniau gweithredu'n wahanol i Gynlluniau Rheoli. Mae Cynlluniau Rheoli Natura 2000 yn disgrifio'r nodweddion sydd o ddiddordeb ar y safle, yn nodi'r nodau a'r amcanion cadwraethol ac yn disgrifio'r hyn y dylid ei wneud i'w cyflawni. Mae cynlluniau gweithredu'n mynd â'r broses gam ymhellach trwy nodi'r hyn y gellir ei gyflawni'n realistig erbyn 2020. Bydd y rhain yn cynnwys manylion ymarferol fel y meysydd gwaith angenrheidiol, y costau, yr amserlenni, pwy fydd yn cyflawni'r gwaith, y blaenoriaethau, y ffynonellau cyllid ac ati – ni nodir yr un o'r rhain mewn Cynlluniau Rheoli safonol. Mae angen cael Cynlluniau Rheoli diweddar fel y gellir cyfarwyddo Cynlluniau Gweithredu, a dylid defnyddio'r ddwy ddogfen gyda'i gilydd.

**A all y Cynlluniau Gweithredu gynnwys camau gweithredu y tu allan i ffiniau'r safleoedd?**

Gallant, cyn belled ag y bydd y camau gweithredu hyn yn gwella cyflwr rhyw nodwedd arbennig ar y safle, er enghraifft trwy leihau llygredd o ryw ffynhonnell i fyny'r afon neu wella'r cysylltiad ecolegol rhwng dau safle.

**Pam y byddwch yn creu cronfa ddata newydd, a'r Gronfa Ddata Gweithredoedd yn bodoli eisoes?**

Nid creu cronfa ddata newydd yw'r bwriad. Y nod, yn hytrach, yw datblygu'r Gronfa Ddata Gweithredoedd os oes modd. Ein bwriad yw gwella hon fel y bydd modd cadw data newydd a gesglir fel rhan o'r prosiect a galluogi ein partneriaid i'w chyrchu trwy gyfrwng yr allrwyd. Ymhellach, bydd yn rhaid i'r gronfa ddata allu ymdrin â chwiliadau, ymholiadau a

dadansoddiadau er mwyn hwyluso llunwyr polisïau, cynllunwyr gweithredol a chynlluniau grantiau ac ati i gael gafael ar yr wybodaeth angenrheidiol.

**Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y Rhaglen Safleoedd Arbennig a Rhaglen Natura 2000 LIFE?**

Y Rhaglen Safleoedd Arbennig a ddyfeisiodd Raglen Natura 2000 LIFE, a bydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Rhaglen Safleoedd Arbennig i ategu ei gwaith cyfredol. Prosiect hirdymor sy'n anelu at ddod â holl safleoedd bywyd gwyllt dan warchodaeth Cymru i gyflwr ffafriol trwy ddefnyddio sawl dull gwahanol yw'r Rhaglen Safleoedd Arbennig, ond yn arbennig trwy ganolbwyntio ar fynd i'r afael â chamau gweithredu ar lawr gwlad. Bydd Rhaglen Natura 2000 LIFE yn canolbwyntio ar safleoedd Natura 2000 yn unig, a dim ond tan ddiwedd mis Rhagfyr 2014 y bydd ar waith. Y canolbwynt yw creu blaengynllun ar gyfer cyflawni camau gweithredu i reoli ac adfer y safleoedd yn ystod y cyfnod 2014-20.

**Sut y bydd sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru yn effeithio ar y prosiect?**

Ar 1 Ebrill 2013 bydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn cael eu disodli gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Gan fod Rhaglen Natura 2000 LIFE yn cael ei hariannu gan gynllun grant LIFE yr UE, rydym dan gontract i gyflawni canlyniadau'r prosiect erbyn diwedd 2014. Bydd yr ymrwymiad hwn yn cael ei drosglwyddo i Gyfoeth Naturiol Cymru heb unrhyw newid sylweddol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn annog yr arfer o gydweithio'n agosach a rhannu syniadau rhwng y staff sy'n ymhél â rheoli Natura 2000, a oedd yn wreiddiol yn perthyn i'r tri sefydliad ar wahân, a bydd hyn yn esgor ar fanteision mawr. Efallai y bydd angen rhoi cyfle i bethau ddod i drefn wrth i'r systemau ddod ynghyd neu wrth i drefniadau newydd gael eu sefydlu, ond rydym wedi cynllunio ar gyfer hyn a bydd y prosiect yn gweithio mewn modd hyblyg i geisio osgoi unrhyw anawsterau.

**Pam y mae Cymru yn gwario cymaint o arian ar safleoedd bywyd gwyllt o gofio bod yr hinsawdd economaidd bresennol yn golygu bod yna nifer o flaenoriaethau pwysicach?**

Mae safleoedd bywyd gwyllt a gaiff eu rheoli'n briodol yn arwain at fanteision economaidd ymhell y tu hwnt i'r buddsoddiad a wnaed ynddynt – trwy gyfrwng twristiaeth, pysgodfeydd ac amaethyddiaeth gynaliadwy, ynghyd â gwasanaethau 'cynnal bywyd' fel gwella ansawdd dŵr, rheoli llifogydd a storio carbon.

Mae hanner yr arian ar gyfer prosiect Natura 2000 LIFE wedi'i roi gan gynllun LIFE yr Undeb Ewropeaidd, felly mae hyn eisoes wedi denu buddsoddiad ychwanegol i economi Cymru. Un o amcanion pwysicaf y prosiect yw cael gafael ar lawer mwy o arian ar gyfer rheoli safleoedd bywyd gwyllt. Gallai hyn olygu miliynau o bunnoedd yn ychwanegol ar gyfer gwaith

cadwraeth, rhywbeth a fyddai'n rhoi hwb i economïau lleol trwy gynnal swyddi gwyrdd a chreu gwaith i fusnesau lleol.

**A fydd partneriaid a rhanddeiliaid yn gallu hawlio rhywfaint o gyllid LIFE i wneud yn iawn am yr amser a gyfrannant tuag at y prosiect a/neu eu treuliau?**

Yn anffodus, ni all partneriaid a rhanddeiliaid hawlio amser na threuliau wrth gymryd rhan yn y prosiect. Fodd bynnag, gobeithio y bydd nifer o randdeiliaid o'r farn fod cymryd rhan yn y prosiect yn rhywbeth gwerth chweil i'w sefydliad ac y bydd yn eu helpu i gyrraedd eu hamcanion eu hunain.

**A fydd angen i bartneriaid a rhanddeiliaid gofnodi eu hamser fel y gellir ei ystyried fel arian cyfatebol?**

Na, dim ond amser tîm y prosiect y gellir ei hawlio o gronfeydd LIFE. Ni allwn hawlio cymorth grant am yr amser y bydd staff eraill y Cyngor wedi'i gyfrannu, ac mae'r un peth yn wir am bartneriaid allanol a rhanddeiliaid. Felly, nid oes angen ichi gofnodi eich amser.

**Sut y gallaf gael mwy o wybodaeth am y prosiect? A oes modd imi gymryd rhan?**

Cewch fwy o wybodaeth ar ein gwefan (www.ccgc.gov.uk/LIFE) neu drwy ffonio aelod o dîm y prosiect ar 01248 385797.

Gall sefydliadau yng Nghymru sydd â diddordeb mewn safleoedd Natura 2000 gyfrannu gwybodaeth, syniadau a barn, yn ogystal â chyfrannu at lunio'r cynlluniau gweithredu a'r rhaglen trwy fynychu gweithdai a gynhelir ledled Cymru yn ystod 2013 a 2014. Hefyd, gellir ymuno â'r rhestr bostio er mwyn cael yr wybodaeth ddiweddaraf a chylchlythyrau ac ati.

Cyfoeth Naturiol Cymru Natural Resources Wales | Llywodraeth Cymru Welsh Government | NATURA 2000 | Life

LIFE N2K Wales: LIFE11 NAT/UK/385

Cefnogir gan LIFE, offeryn ariannol y Gymuned Ewropeaidd